



## DATGANIAD

### 5<sup>ed</sup> Cyfarfod Gweinidogol

### Y Grŵp Gwaith Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd 21/22 Tachwedd 2019

Cynhaliodd y Grŵp Gwaith Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd ei bumed cyfarfod Gweinidogol heddiw ar Ynys Manaw. Croesawyd pawb i'r cyfarfod ar ran Llywodraeth Ynys Manaw gan Graham Cregeen MHK, y Gweinidog Addysg, Chwaraeon a Diwylliant.

Sefydlwyd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ym 1999, fel fforwm i'w aelodau drafod, ymgynghori ac ymdrechu'n deg i ddod i gytundeb a chydweithio ar faterion sydd o ddiddordeb ar y cyd ac o fewn cymhwysedd yr Aelod-wladwriaethau. Llywodraeth Cymru sy'n arwain y Grŵp Gwaith hwn ac mae wedi bod yn fforwm unigryw ac adeiladol i gyfnewid tystiolaeth ac i gydweithio ers ei sefydlu. Roedd y cyfarfod heddiw yn canolbwyntio ar dri phrif faes: Oedolion yn Dysgu ieithoedd cynhenid, lleiafrifol a llai eu defnydd (IML); Cynllunio'r Gweithlu; a Defnydd cymdeithasol o ieithoedd IML, gan gynnwys drwy gyfrwng y celfyddydau a thechnoleg ddigidol.

Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru fu'n cadeirio'r cyfarfod. Roedd Graham Cregeen MHK, Gweinidog Addysg, Chwaraeon a Diwylliant yno yn cynrychioli Llywodraeth Ynys Manaw. Seán Kyne TD, Prif Chwip y Llywodraeth a'r Gweinidog Gwladol gyda chyfrifoldeb dros yr Iaith Wyddeleg, y Gaeltacht a'r Ynysoedd fu'n cynrychioli Llywodraeth Iwerddon. Cynrychiolwyd Llywodraeth yr Alban gan Kate Forbes ASA, Gweinidog Cyllid Cyhoeddus a'r Economi Ddigidol. Y Dirprwy Montfort Tadier, Dirprwy Weinidog Datblygu Economaidd, Twristiaeth, Chwaraeon a Diwylliant a

oedd yn cynrychioli Llywodraeth Jersey. Cafodd Llywodraeth Guernsey ei chynrychioli gan y Dirprwy Rhian Tooley, Aelod y Pwyllgor Addysg, Chwaraeon a Diwylliant.

### **Cynhadledd ac Adroddiad Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd 2018**

Trafododd y Gweinidogion yr adroddiad a ddeilliodd o'r gynhadledd ar "Dysgu Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd gan Oedolion" a gynhaliwyd ar 8/9 Mawrth 2018 yn Belffast. Y prif ffocws oedd dysgu ieithoedd cynhenid, lleiafrifol a llai eu defnydd gan oedolion, a chysylltiadau gyda'r gymuned, y gweithle a chymdeithas ehangach, a oedd yn torri ar draws tri phwnc y grŵp gwaith. Yn benodol, trafododd siaradwyr faterion fel dysgu ieithoedd y tu allan i ystafelloedd dosbarth traddodiadol, a rôl ieithoedd wrth feithrin cydlyniant cymunedol. Roedd tua 75 o gynrychiolwyr a siaradwyr o wyth Aelod-weinyddiaeth y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn bresennol, gan gynrychioli'r sectorau cyhoeddus a chymunedol, yn ogystal ag academia.

Nododd y Gweinidogion adroddiad y gynhadledd, a chytuno i'r adroddiad fod ar gael yn gyhoeddus. Gellir gweld adroddiad y gynhadledd ar adran adroddiadau gwefan y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig: [www.britishirishcouncil.org](http://www.britishirishcouncil.org).

### **Cyflwyniad gan Jeebin**

Cafodd y Gweinidogion gyflwyniad hefyd gan Phil Gawne ar ran Jeebin, Rhwydwaith yr Iaith Fanaweg. Roedd y cyflwyniad yn amlinellu hanes yr iaith Fanaweg ac yn dathlu gwaith y rhai fu'n ymwneud â'i hadfywiad trawiadol.

### **Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Cynhenid UNESCO, 2019**

Dynodwyd 2019 yn Flwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Cynhenid (IY2019) gan y Cenhedloedd Unedig "er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n hieithoedd, nid yn unig er lles y bobl sy'n eu siarad, ond hefyd er mwyn i eraill werthfawrogi eu cyfraniad pwysig i amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog ein byd". Nodwyd mai rhan bwysig o gylch gwaith y grŵp gwaith hwn yw rhannu arferion gorau, dysgu oddi wrth ein gilydd, a dathlu'r amrywiol ieithoedd a ddefnyddir ar yr ynysydd hyn. Tynnodd y Gweinidogion sylw at nifer o weithgareddau a gynhaliwyd yn yr Aelod-weinyddiaethau fel rhan o'r fenter hon,

a bu'n sylfaen gadarn er mwyn gwneud rhagor i gefnogi ieithoedd cynhenid, lleiafrifol a llai eu defnydd yn y dyfodol.

### **Edrych tua'r dyfodol**

Cytunodd y Gweinidogion mai Jersey fyddai'n cynnal y chweched cyfarfod Gweinidogol. Yn ogystal â'r ymrwymadau a amlinellir uchod, ystyriodd y Gweinidogion gynigion ar gyfer rhaglen waith nesaf y grŵp gwaith. Gan nodi pwysigrwydd hwyluso'r defnydd o'r ieithoedd dan sylw mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, cytunwyd y dylai hyrwyddo defnydd fod yn eitem sefydlog i'r sector gwaith. Yn ogystal, gwnaethant gytuno y dylai'r sector gwaith ganolbwyntio ar:-

- Defnydd cymdeithasol o ieithoedd (eitem sefydlog);
- Y Blynyddoedd Cynnar; ac
- Isadeiledd/Technoleg/Effaith Economaidd

Cytunodd y Gweinidogion fod y meysydd polisi hyn yn rhai gwerth chweil a hynod ddiddorol, a'u cefnogi fel sylfaen maes gwaith at y dyfodol, yn amodol ar gytundeb y Cyngor yn ystod yr Uwchgynhadledd nesaf. Ar ôl eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, bydd y grŵp gwaith yn adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn ystod cyfarfod Gweinidogol nesaf y grŵp Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd.

**Ysgrifenyddiaeth CPG**  
**22 Tachwedd 2019**

[www.britishirishcouncil.org](http://www.britishirishcouncil.org)

**GRŴP GWAITH IEITHOEDD CYNHENID, LLEIAFRIFOL A LLAI EU DEFNYDD Y  
CYNGOR PRYDEINIG-GWYDDELIG**

**Llywodraeth Cymru**

Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Llywodraeth Ynys Manaw**

Graham Cregeen MHK, Gweinidog Addysg, Chwaraeon a Diwylliant

**Llywodraeth yr Alban**

Kate Forbes ASA, Gweinidog Cyllid Cyhoeddus a'r Economi Ddigidol

**Llywodraeth Guernsey**

Y Dirprwy Rhian Tooley, Aelod y Pwyllgor Addysg, Chwaraeon a Diwylliant

**Llywodraeth Jersey**

Y Dirprwy Montfort Tadier, Dirprwy Weinidog Datblygu Economaidd, Twristiaeth, Chwaraeon a Diwylliant

**Llywodraeth Iwerddon**

Seán Kyne TD, Prif Chwip y Llywodraeth a'r Gweinidog Gwladol gyda chyfrifoldeb dros yr Iaith Wyddeleg, y Gaeltacht a'r Ynysoedd.